# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD Y BWRDD GWEITHREDOL DROS YR AMGYLCHEDD

**19 GORFFENNAF 2019**

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** H.A.L. Evans (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
S. Pilliner, Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth;
D.W. John, Rheolwr y Gwasanaethau Gwastraff;
J. Lawday, Swyddog Mynediad i Gefn Gwlad;
J.E. Winter, Cynorthwyydd Mynediad i Gefn Gwlad;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Ystafell Gyfarfod Adfywio, Neuadd y Sir, Caerfyddin: 9:00yb - 9:20yb**

## 1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 10 MAI 2019

**PENDERFYNWYD llofnodi'r cofnod penderfyniadau o gyfarfod yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd a gynhaliwyd ar 10 Mai, 2019 gan ei fod yn gofnod cywir.**

## 3. CAU'R BRIFFORDD GYHOEDDUS GER FFYNNON-DDRAIN, LLANLLWNI

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn manylu ar gynnig i gau yn ffurfiol darn o'r briffordd gyhoeddus nad yw'n cael ei ddefnyddio ger Ffynnon-ddrain, Llanllwni drwy Orchymyn mewn Llys Ynadon o dan Adran 116 o Ddeddf Priffyrdd 1980.

Yn dilyn cynllun gwella a gyflawnwyd tua 1998, a gafodd ei roi ar waith i wella diogelwch y gyffordd wrth yr A485 yn Abergiar, nodwyd nad yw darn o'r briffordd ger eiddo o'r enw Ffynnon-ddrain bellach yn cael ei ddefnyddio yn sgil y drefn newydd i'r ffordd.

Nododd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol y barnwyd nad oedd y darn o dir dan sylw yn cael ei ddefnyddio fel priffordd ac felly, petai'r gorchymyn cau yn llwyddiannus, byddai'r tir yn cael ei drosglwyddo yn ôl i'r Ffynnon-ddrain, y tirfeddiannwr cyfagos ar gofrestr y Gofrestrfa Tir.

Yn ogystal, nodwyd y byddai'r costau sy'n gysylltiedig â'r gorchymyn cau yn cael eu hysgwyddo gan y Cyngor er mwyn rheoleiddio'r sefyllfa bresennol.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r gorchymyn i gau'r ffordd fel y nodir yn yr adroddiad a rhoi gorchymyn i'r Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith i gau'r darn o'r briffordd yn unol ag Adran 116 o Ddeddf Priffyrdd 1980.**

## 4. CAIS I YCHWANEGU LLWYBR CEFFYLAU YN LLWYNTEG, LLANNON

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd, yn dilyn derbyn cais am Orchymyn Addasu Mapiau Diffiniol ffurfiol ym mis Gorffennaf 2018 i gofrestru hawl dramwy gyhoeddus nad oedd wedi'i chofrestru'n flaenorol, yn ceisio cymeradwyaeth i wneud Map Diffiniol a Datganiad Hawliau Tramwy Cyhoeddus ger Llwynteg, yng Nghymuned Llannon, dan Adran 53 ac Atodlen 14 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981).

Nododd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol y gwrthwynebiadau a oedd wedi dod i law a'r datganiadau cefnogol a oedd wedi'u hatodi i'r adroddiad.

Nodwyd bod y dystiolaeth a oedd ar gael wedi cael ei hadolygu mewn perthynas â'r cais a'i bod yn bodloni'r profion cyfreithiol a nodir yn adran 53 (3) (c) (i) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981), sef bod yr hawl tramwy na ddangosir ar y Datganiad a'r Map Diffiniol yn bodoli neu y gellir honni'n rhesymol ei fod yn dal yn bodoli.

Yn ogystal, nodwyd pe byddai'r Gorchymyn yn cael ei gymeradwyo, byddai'n cael ei lunio a'i gyhoeddi am 42 o ddiwrnodau fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf 1981. Byddai cyhoeddi'r Gorchymyn yn rhoi cyfle i sylwadau pellach gael eu cyflwyno i'r Awdurdod, gan roi tystiolaeth yn cefnogi neu'n gwrthwynebu bodolaeth llwybr ceffylau.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais a llunio Gorchymyn Addasu Mapiau Diffiniol gyda'r diben o ychwanegu Hawl Dramwy Gyhoeddus (Llwybr Ceffylau) heb ei chofnodi yn Llwynteg, Llanllwni at y Map Diffiniol a'r Datganiad ar gyfer Sir Gaerfyrddin.**

## 5. DARPARIAETH CYNHWYSYDD AILGYLCHU

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a gyflwynai ffordd o wella perfformiad ailgylchu Sir Gaerfyrddin drwy ddarparu Bagiau Leinio ar gyfer Cadis Gwastraff Bwyd i bob aelwyd.

Eglurodd yr adroddiad y byddai darparu bagiau leinio ar gyfer cadis gwastraff bwyd am ddim i bob aelwyd yn cefnogi ymhellach trosglwyddo gwastraff bwyd o'r bagiau du i'r cynllun ailgylchu gwastraff bwyd a fyddai yn ei dro yn:-

- cynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan yn y cynllun ailgylchu gwastraff bwyd
- gwella perfformiad ailgylchu cyffredinol y Cyngor
- lleihau'r gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi, Ynni o Wastraff a chostau triniaeth
- osgoi dirwyon posibl am fethu cyrraedd targedau ailgylchu
- gwella'r modd y mae'r gwasanaethau gweithredol yn casglu bwyd gwastraff.

Mewn dadansoddiad ynghylch bagiau du, sylwyd bod 25.8% o gynnwys y bagiau du yn Sir Gaerfyrddin yn wastraff bwyd ac ar hyn o bryd Sir Gaerfyrddin yw'r unig Awdurdod yng Nghymru nad yw'n darparu bagiau leinio gwastraff bwyd i breswylwyr.

Yn ogystal, nodwyd bod cerbydau y Gwasanaethau Gwastraff yn wynebu diffygion mecanyddol o ran y lle a ddarperir yn y cerbyd ar gyfer bwyd, roedd hyn yn arwain at achosion o gerbydau'n torri i lawr o ganlyniad i fwyd yn cronni yn y mecanwaith codi gan fod y bwyd sy'n rhydd yn y cadis bwyd yn gorlifo. Roedd gwybodaeth gan Awdurdodau eraill yn awgrymu bod cadw bwyd mewn bagiau leinio yn lleihau'r broblem hon yn sylweddol, gan wella effeithlonrwydd y casgliad a lleihau achosion o gerbydau yn torri i lawr.

Nododd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol y byddai costau amcangyfrifedig o ran darparu bagiau leinio gwastraff bwyd i'r holl aelwydydd oddeutu £215,000 a oedd yn ddibynnol ar broses gaffael a byddent yn cael eu hariannu o adnoddau adrannol. Yn ogystal, efallai y bydd cynnydd bychan o ran costau dosbarthu cynhwysydd gan y byddai'n cymryd mwy o amser i ddosbarthu dau gynhwysydd ar wahân. Fodd bynnag, byddai'r costau dosbarthu eisoes yn cael eu hysgwyddo wrth ddosbarthu bagiau ailgylchu glas i aelwydydd.

Er mwyn cefnogi trosglwyddo gwastraff bwyd o'r bagiau du i'r cynllun ailgylchu gwastraff bwyd a gwella'r perfformiad ailgylchu cyffredinol, cynigwyd dosbarthu bagiau leinio gwastraff bwyd i'r holl breswylwyr ar yr un adeg â'r rhaglen dosbarthu bagiau ailgylchu glas.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo darparu Biniau Leinio ar gyfer Cadis Gwastraff Bwyd i bob aelwyd yn Sir Gaerfyrddin a'u dosbarthu'r un pryd â'r dosbarthiad bagiau glas blynyddol.**

## 6. CYFARWYDDYD I GERBYDAU AR GYFER MYNEDIAD I GANOLFANNAU AILGYLCHU - NEWID POLISI

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn cynnig newidiadau i bolisi Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref o ran ehangu'r mathau o gerbydau sy'n cael mynediad, gan ehangu ar yr ystod o gerbydau a threlars sy'n gallu cael mynediad gyda hawlen neu heb un.

Roedd yr adroddiad yn nodi, yn dilyn gweithredu polisi presennol y Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref ac yn dilyn sylwadau gan y cyhoedd, bod angen gwneud newidiadau er mwyn sicrhau bod trigolion Sir Gaerfyrddin yn gallu gwneud defnydd llawn o'r safleoedd i waredu eu gwastraff domestig.

Nododd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol y newidiadau a amlinellir yn yr adroddiad ac a arddangosir yn y 'Canllawiau ar y math o gerbydau sy'n cael mynediad i ganolfannau ailgylchu' diwygiedig sydd ynghlwm wrth yr adroddiad yn Atodiad 1.

Nodwyd y byddai'r newidiadau yn golygu y byddai mwy o drigolion yn gallu cael mynediad i'r safleoedd er mwyn cael gwared ar wastraff eu cartref, megis gwastraff gardd ac eitemau swmpus y cartref. Yn ogystal, mae'r gwelliannau yn caniatáu ystod ehangach o gerbydau ac yn cynyddu'r cyfle i ddefnyddio trelars ar gyfer cludiant a allai gyfrannu ymhellach at y deunydd ailgylchu domestig sy'n cael ei waredu yn y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref a gallai cynorthwyo'r Awdurdod i gyrraedd y targed ailgylchu statudol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer eleni (2019-2020), sef 64%.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r newidiadau i'r dosbarthiadau o ran math o gerbydau modur a threlars a nodwyd yn Atodiad 1 mewn perthynas â mynediad i'r pedwar safle Ailgylchu Gwastraff y Cartref.**

____________________________________ ____________________

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**